

# Gair i gall ar gyfer arbed ynni

Rhowch gynnig ar un o'r cynghorion arbed ynni syml hyn i arbed adnoddau a lleihau biliau ynni yn eich prifysgol neu goleg.

## Gwresogi a dŵr poeth

**Mae gwresogi yn gallu bod yn gyfrifol am gymaint â 65% o fil ynni eich prifysol*, ond mae ffyrdd hawdd y gallwch arbed ynni.**

- Gall cyn lleied ag 1°C o orgynhesu gynyddu costau tanwydd 8%**, felly gwnewch yn siŵr nad ydych yn troi'r gwres i fyny heb fod angen mewn mannau lle nad oes mo'i angen.
- Dwedwch wrth eich rheolwr ynni neu dîm cyfleusterau os oes unrhyw ardaloedd yn rhy boeth, yn rhy oer neu'n rhy ddrafftiog. Gallai hynny fod yn arwydd o broblem cynnal a chadw.
- Osgowch ddefnyddio'ch gwresogyddion neu'ch gwyntyllau eich hunain; yn hytrach, siaradwch â'ch rheolwr ynni ynglŷn ag ailraglennu'r system wresogi neu awyru.
- Gwiriwch nad oes tapiau'n cael eu gadael yn rhedeg – a rhowch wybod i'r rheolwr cyfleusterau neu ynni am unrhyw dapiau sy'n diferu neu sestonau sy'n gorlifo.

**OEDDECH CHI'N GWYBOD? Nid yw troi'r thermostat i fyny i'w osodiad uchaf yn cynhesu'r gofod yn gyflymach o gwbl; y cyfan mae'n wneud ydy arwain at orgynhesu. Mae'r un peth yn wir am thermostatau systemau awyru os byddwch yn eu troi i lawr i'w gosodiad isaf.**

## Goleuo

**Mae goleuo yn gallu bod yn gyfrifol am 25% o fil trydan eich sefydliad*, felly ewch ati i chwilio am arbedion yma hefyd.**

Gallai'r sector Addysg Bellach ac Uwch arbed 25% ar allyriadau carbon gyda mesurau arbed ynni.*

- Diffoddwch y goleuadau mewn ystafelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio – a dwedwch wrth y myfyrwyr am wneud hynny hefyd.
- Rhowch wybod am unrhyw oleuadau diffygiol neu annigonol i'r rheolwr cyfleusterau neu ynni.

**OEDDECH CHI'N GWYBOD? Os byddwch chi'n diffodd golau am ychydig eiliadau yn unig, mae'n arbed mwy o ynni nag a ddefnyddir i ailgynnau'r golau eto.**

## Cyfarpar

**Mae cyfarpar TGCh neu gyfarpar arbenigol (mewn labordai gwyddoniaeth, er enghraifft) ac eitemau trydanol – fel tegellau – yn gallu gwastraffu cryn dipyn o ynni, ond mae wastad ffyrdd y gellir lleihau hynny.**

- Peidiwch â gadael cyfarpar ymlaen yn y modd segur: mae'n dal i ddefnyddio pŵer hyd yn oed os yw'n edrych fel petai wedi'i ddiffodd!
- Llenwch y tegell gyda faint o ddŵr sydd ei angen arnoch, a dim mwy – mae berwi mwy yn gwastraffu dŵr a thrydan.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio unrhyw osodiadau arbed pŵer ar gyfrifiaduron a chyfarpar swyddfa (e.e. llungopïwyr).
- Cofiwch ddiffodd unrhyw gyfarpar trydanol pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Bydd hyn yn helpu i ymestyn oes y cyfarpar, ond bydd hefyd yn arbed ynni ac arian. Bydd cyfrifiadur sy'n cael ei adael ymlaen 24/7 yn costio tua £53 y flwyddyn.†
- Defnyddiwch ongl cynaliadwyedd i dynnu myfyrwyr i mewn a'u cael i arbed ynni ar y campws hefyd.

**OEDDECH CHI'N GWYBOD? Mae diffodd eich cyfrifiadur dros nos ac ar benwythnosau yn lleihau ei gost i oddeutu £11 y flwyddyn ac yn arbed cymaint o ynni ag y byddai ei angen i wneud mwy na 30,000 o baneidiau coffi!†**

**Siaradwch â ni!** Rhowch wybod am unrhyw broblemau goleuo neu wresogi i:

TEC e ENERGY & EDUCATION CONNECTED

Ffynonellau: * https://www.carbontrust.com/resources/guides/sector-based-advice/further-and-higher-education/ ** https://www.carbontrust.com/resources/guides/sector-based-advice/healthcare
† https://www.carbontrust.com/media/39208/ctv020_further_and_higher_education.pdf

EDF Energy Ltd ar ran EDF Energy (UK) Limited, (Rhif Cofrestredig 2622406). Swyddfa gofrestredig: 90 Whitfield Street, Llundain, W1T 4EZ.